


## Little Mix / Bryan Adams – Cyrraedd yma

Mae'r amser bron â chyrraedd!

Gobeithio eich bod chi, fel ni, yn edrych ymlaen yn arw i groesawu Little Mix a Bryan Adams yma i Stadiwm Eirias. Dim ond eisiau eich atgoffa chi ydym ni y bydd yna nifer fawr iawn o bobl, ac felly ceir, yma ar y noson.

Yr ateb delfrydol - os gallwch chi, gadewch eich car gartref a dewch am dro i gerdded yma ar noson braf o haf (rydyn ni wedi archebu'r heulwen!).

Os nad ydi hynny'n bosib, darllenwch ymlaen ...



Google Maps: <http://bit.ly/2r4Xlpz>

## Cludiant cyhoeddus

Rydyn ni wedi cysylltu â'r cwmnïau bysiau a threnau lleol i roi gwybod iddyn nhw ein bod yn disgwyl nifer fawr o ymwelwyr i Fae Colwyn dros y penwythnos.

Bydd yr holl wasanaethau yn rhedeg fel arfer, ond mae'n bosib y bydd rhywfaint o fân oedi ar adegau prysur ar y ffordd.

Bydd bws gwennol rhad ac am ddim yn cael ei ddarparu i ddeiliaid tocynnau rhwng Gorsaf Reilffordd Bae Colwyn a Stadiwm Eirias o 2pm tan 11pm.

## Parcio am ddim

Cofiwch fod nifer gyfyngedig o leoedd parcio ar gael am ddim ar y Promenâd. Yn amlwg, bydd hyn ar sail y cyntaf i'r felin a fydd yna ddim staff yno i'ch cyfeirio chi. Dewch yn gynnar a cherdded yr ychydig funudau o daith i'r stadiwm gan ddilyn yr arwyddion.

## Mannau gollwng / casglu

Mae mannau gollwng a chasglu dynodedig wedi'u trefnu i sicrhau bod traffig yn dal i symud, ond yn bennaf oll, i sicrhau diogelwch pawb.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r mannau gollwng a chasglu dynodedig ar gyfer eich math o gerbyd, i'n helpu ni i sicrhau cyn lleied o darfu ar y traffig ag sy'n bosib.

#### Mewn Car / Bws Mini

- Porth Eirias  
LL29 8HH

#### Mewn Coets

- Ysgol Bryn Elian LL29 8HU

#### Parcio a theithio / bws gwennol y trê

- Safleoedd bysiau cyhoeddus Ffordd Conwy / Abergele  
Bydd y bysiau'n gweithredu system dolen

#### **Parcio a theithio**

(Bysiau gwennol rhwng 2pm ac 11pm)

Mae 4 o opsiynau parcio a theithio yn ardal ehangach Bae Colwyn. Codir tâl am barcio mewn rhai mannau, ond mae'r daith wennol yn rhad ac am ddim.

Bydd y bws parcio a theithio wedi'i nodi'n glir gydag arwydd ar y ffenestr flaen a bydd yn codi teithwyr o'r holl brif safleoedd bysiau ar hyd Ffordd Conwy / Abergele ar gyfer y meysydd parcio talu ac arddangos (trowch at y map i weld lleoliadau'r safleoedd bysiau). Ar ddiwedd y cyngerdd, bydd y bysiau gwennol yn barod i fynd â chi yn ôl at eich car. Holwch stiward am gyfarwyddiadau os nad ydych chi'n siŵr.

- Maes Parcio A  
Talu ac Arddangos  
Douglas Road  
LL29 7PE
- Maes Parcio B  
Talu ac Arddangos  
Ivy Street  
LL29 8DE
- Maes Parcio C  
Talu ac Arddangos  
Rhodfa'r Tywysog  
LL29 8LA
- Maes Parcio K  
Am ddim  
Coleg Llandrillo

LL28 4HZ

Dolen i weld prisiau'r meysydd parcio talu ac arddangos: <http://bit.ly/2r1bPsD>

### **Parcio a cherdded**

(Meysydd parcio ar gael rhwng 2pm ac 11pm)

Mae 5 dewis o fannau parcio a cherdded yn agos at Stadiwm Eirias.

- Maes Parcio D  
£5 i'r stiward  
Ysgol Bryn Elian  
LL29 8HU
- Maes Parcio E  
£5 i'r stiward  
Swyddfeydd Dinesig  
LL29 8AR
- Meysydd Parcio F a G  
Y Promenâd o Hen Golwyn i Bier Bae Colwyn  
LL29 8AR
- Maes Parcio J  
£5 i'r steward  
Bryn a Phlas Eirias  
LL29 8BF
- Maes Parcio K  
£5 i'r stiward  
Pencadlys yr Heddlu  
LL29 8AW

### **Parcio i bobl anabl**

Mae gennym nifer cyfyngedig iawn o leoedd parcio i bobl anabl (2pm - 10pm)

- Meysydd Parcio H ac I  
Canolfan Hamdden Colwyn  
Mynediad drwy Ffordd Abergele  
LL29 7SP


Bydd angen i stiwardiaid weld eich bathodyn glas wrth y giât ac yna byddant yn eich cyfeirio at y lle agosaf sydd ar gael, a fydd yn cael eu neilltuo ar sail y cyntaf i'r felin.

### **Coetsis**

- Mae gennym fannau gollwng i goetsis yn Ysgol Bryn Elian. Dilynwch yr arwyddion ffordd sy'n eich cyfeirio

Bydd modd i goetsis barcio ar y safle. Neu'r maes parcio agosaf i goetsis yw:

Builder Street  
Llandudno  
Conwy  
LL30 1DA



### Cau'r Ffordd

Bydd Ffordd Abergele yn cael ei chau dros dro am hyd at 40 munud rhwng 21:20 a 22:20 i ganiatáu i'r tyrfaoedd wasgaru cyn caniatáu i gerbydau symud. Dilynwch yr arwyddion fydd yno i'ch cyfeirio a chwiliwch y cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf.